

Genomeg a'n Cleifion

Mae Partneriaeth Genomeg Cymru (GPW) wedi gwneud cynnydd gwych dros y misoedd diwethaf a hoffwn ddiolch i chi gyd am eich ymroddiad a'ch gwaith caled.

Rydym ni wedi gweld Prosiect 100,000 o Genomau Genomics England yn cael ei gwblhau gyda 154 o deuluoedd yn cael eu recriwtio yng Nghymru. Mae ein cydweithredu parhaus â GIG Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill ar gyfer genomeg yn cael ei ddatblygu mewn ffordd a fydd yn diwallu anghenion ein cleifion orau.

Mae ein Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd bellach wedi'i sefydlu Maent yn darparu llais gwerthfawr i gleifion ar y Strategaeth ac mae'r pynciau wedi cynnwys caniatâd i ymchwilio, dylunio gwefannau, clinigau ac ystafelloedd aros, a llwybrau gwasanaeth genomeg newydd. Mae dau aelod o'r Bwrdd Seinio wedi ymuno â'n Byrddau Llywodraethu a Rhaglen, er mwyn sicrhau bod y trafodaethau a'r penderfyniadau yn parhau i ganolbwyntio ar gleifion.

Mae cryn dipyn o waith ymgysylltu yn digwydd â staff a chleifion. Mae Caffis Genomeg yn cael eu cynnal ledled Cymru, gan gynnig cyfle anffurfiol i bobl gyda chyflwr prin neu genetig gwrdd a dysgu am ddatblygiadau newydd mewn genomeg. Rydym ni hefyd yn lansio ein menter Pencampwyr Genomeg – ac mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 3.

Mae'r dilyniannwr NovaSeq bellach wedi'i osod gan olygu bod modd cynnig gwasanaethau newydd i wella gofal cleifion sy'n ganolog i'n Strategaeth. Mae'r rhifyn hwn yn nodi manylion gwell gwasanaeth ar gyfer cleifion canser y coluddyn, ac rydym ni'n datblygu gwasanaethau newydd ar gyfer plant sâl ac mewn ffarmacogeneteg. Cofiwch gadw llygad am uchafbwyntiau eraill yng nghylchlythrau'r dyfodol.

Yn olaf, hoffwn longyfarch Pennaeth ein Rhaglen, Catrin, ar ennill gwobr Arweinydd ar gyfer y Dyfodol – gwobr llawn haeddiannol rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno!



Len Richards
Len Richards
Prif Weithedwr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Ffo
Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol
GPW

Ffocws ar GPW

Y Ddawns Genomeg

Diolch i bawb a gefnogodd ac a ddaeth i'r Ddawns Genomeg ym mis Gorffennaf. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a llwyddodd y raffl a'r ocsiwn tawel i godi bron i £300 i elusennau iechyd GIG Cymru.

Cystal oedd llwyddiant y dathliad cyntaf erioed o GPW, mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd y ddawns yn ddigwyddiad blynyddol.



Cofiwch gadw llygad am wybodaeth dros y misoedd nesaf wrth i baratoadau ddechrau ar gyfer Dawns Genomeg 2020!



Ymgynghoriad Haf GPW – Cleifion a'r Cyhoedd

Ym mis Mehefin, bu i Fwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd GPW gwrrd am yr ail dro ar gyfer eu Hymgyngoriad Haf. Cawsant eu cyflwyno â dau bwnc a chafodd amrywiaeth o safbwyntiau eu mynegi ac awgrymiadau da eu gwneud.

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf yn y bore yn ymdrin â dyluniad a chynllun gwefan ar gyfer datblygu gwefan newydd Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS), yr angen am gynnwys heb jargon, gofynion iaith Gymraeg, cyfeirio at wybodaeth trwy sefydliadau eraill a defnyddio 'ategion' cyfryngau cymdeithasol fel blychau sgwrsio/cymwysiaidau anfon negeseuon.

Amlygodd sesiwn y prynhawn am agweddau ar daith y claf trwy'r gwasanaeth geneteg glinigol yr angen am gyfathrebu clir a chryno â chleifion am y llwybr atgyfeirio (gan egluro prosesau ac amseroedd aros yn y gwasanaeth ac adrannau eraill y GIG y gellir cyfeirio atynt). Awgrymwyd newidiadau i wella ardaloedd aros/clinig. Dylid rhoi unrhyw wybodaeth mewn fformat glir a hygyrch.

Mae AWMGS eisoes wedi cymryd rhai o'r awgrymiadau i ystyriaeth ac wedi gwneud newidiadau bychain ac ymarferol o ganlyniad er mwyn gwella'r amgylchedd i gleifion. Diolch i'r holl staff a gyfrannodd at wneud hwn yn ymarfer ymgynghori cynhyrchiol a defnyddiol i bawb a oedd yn rhan ohono.

Os hoffech ddefnyddio'r Bwrdd Seinio i ymgynghori ar bynciau sy'n berthnasol i'ch maes chi, cysylltwch â Swyddfa'r Rhaglen a fydd yn fwy na hapus i drefnu hyn i chi. Mae ymgynghoriadau e-bost ar gael gyda Bwrdd Seinio hefyd lle bo'n briodol.

#ArDrywydd Genomeg

Dyma gyflwyno rhai yn unig o aelodau niferus Partneriaeth Genomeg Cymru sy'n cyfrannu at ddyfodol Genomeg Cymru.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddilyn gyrfa ym maes genomeg?

Ar ôl gweithio mewn nifer o wahanol feysydd yn y labordy daeth yn amlwg i mi fy mod i eisiau symud i rôl fwy clinigol lle gallwn gael mwy o effaith ar ofal cleifion. Roeddwn i eisoes yn ymwybodol o'r Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr (STP) a'r datblygiadau enfawr mewn genomeg, felly pan ddaeth y swydd yn rhydd, roedd yn teimlo fel y cyfle perffaith.

Beth sy'n digwydd yn ystod diwrnod gwaith arferol?

Fel hyfforddai rwy'n gallu cylchdroi o amgylch amryw adrannau'r labordy er mwyn cwblhau hyfforddiant seiliedig ar gymwyseddau. Dim ond ychydig fisoedd i mewn i fy mlwyddyn gyntaf ydw i felly rydw i dal i gael fy nhraed oddi tanaf ond rydw i wedi caru'r profiad hyd yn hyn (ar wahân i arholiadau!). Gall fy niwrnod arferol gynnwys a sylwi technegau yn y labordy, dadansoddi microsgopeg a helpu i ysgrifennu adroddiadau. Rwyf hefyd wedi gallu bod yn bresennol mewn timau aml-ddisgyblaethol a chlinigau sy'n wych er mwyn gweld sut mae popeth yn dod at ei gilydd.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i rywun fyddai â diddordeb mewn ymuno â'r maes?

Mae'r Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr yn rhaglen dair blynedd sy'n cynnwys MSc rhan amser. Felly fy nghyngor i fyddai i ymchwilio, deall yr ymrwymadau sydd ynghlwm â'r cyfle a gwneud yn siŵr fod gennych chi brofiad gwaith addas. Rydym ni'n ffodus iawn yng Nghaerdydd i gael cystal hyfforddiant a chefnogaeth gan yr adran. Rwy'n meddwl ei bod yn rhaglen hyfforddi anhygoel ac yn ffordd wych i fynd i mewn i genomeg.



Amber Pryce

Gwyddonydd Clinigol dan Hyfforddiant (Genomeg Canser)

Sefydliad Geneteg Feddygol

Ar ôl ennill ei gradd, cofrestrodd Amber â'r HCPC ac yn fuan wedi hynny dechreuodd weithio fel Gwyddonydd Biofeddygol. Mae hi wedi ennill amryw brofiadau mewn nifer o ddisgyblaethau patholeg mewn gwahanol ysbtyai. Y tu allan i'r gwaith mae hi hefyd yn helpu i godi arian ac yn gwirfoddoli, gan amrywio o wyliau a gwerthu cacennau i ffeiriau gwyddoniaeth.



Matthew Howells

Dirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan

Mae Matt wedi bod yn frwd dros chwaraeon ers erioed; graddiodd o U.W.I.C. gyda gradd baglor mewn Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff gan ddilyn hynny â phum mlynedd yn gweithio i'r Gwasanaeth Maeth a Dieteteg. Mae'n gwirfoddoli yn y gymuned fel hyfforddwr pêl-droed, a gyflwynodd gyfle iddo sefydlu ei fusnes eu hun, gan agor drysau i'r byd busnes ac yna i fyd Genomeg.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddilyn gyrfa ym maes genomeg?

Fe wnaeth darllen am y weledigaeth ar gyfer genomeg yng Nghymru fy llenwi â chyffro i wneud cais am y rôl hon er mwyn gweld a allaf ddod â'r sgiliau rwyf wedi'u datblygu yn y sector preifat i'r sector cyhoeddus i gefnogi hyn. Felly'r cyfle i edrych yn ôl mewn blynyddoedd i ddod a dweud "Roeddwn i'n rhan o hynny!"

Beth sy'n digwydd yn ystod diwrnod gwaith arferol?

Mae pob dydd yn ddiwrnod o addysg i mi, a hynny am 2 reswm, 1. Mae'r byd genomeg yn hollol newydd i mi a 2. Rydym ni'n rhan o wasanaeth sydd o hyd yn chwilio i ddatblygu a gwneud cynnydd. Mae gweithio mewn safle annibynnol a darparu cymorth busnes i'r gwasanaeth cyfan yn golygu bod pob diwrnod yn dod â'i heriau.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i rywun fyddai â diddordeb mewn ymuno â'r maes?

Mae'n adeg gyffrous, nid yn unig i ddod a bod yn rhan ohono, ond hefyd er mwyn llywio dyfodol Genomeg yng Nghymru. Mae rolau i bobl gydag amrywiaeth o brofiadau gwaith a sgiliau, gyda llawer o gyfleoedd i ddatblygu yn fewnol. Cofiwch gadw llygad am y cyfle cywir i chi!

Sbotolau Ar

Arddangos ychydig yn unig o holl gyflawniadau Partneriaeth Genomeg Cymru sy'n cyfrannu at ddyfodol Genomeg yng Nghymru.

Mae Syndrom Lynch yn gyflwr sy'n gallu cynyddu'r perygl o ganser y coluddyn o hyd at 80%. Mae'r perygl ei fod yn cael ei basio i blentyn gyda'r un uned deuluol yn 50%.

Bydd yr ymrwymiad newydd hwn gan GIG Cymru yn golygu bod modd ymyrryd yn gynt a thargedu ymyriadau gan wella canlyniadau i gleifion canser y coluddyn yn y dyfodol. Bydd yn cyflawni hyn drwy fynd ati'n rhagweithiol i brofi pob unigolyn sy'n cael diagnosis o ganser y coluddyn.

Pan ddarganfyddir amrywiad genyn pathogenig, bydd hyn yn galluogi'r GIG i dargedu teuluoedd yr effeithir arnynt gyda sgrinio rheolaidd. Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar lawer o fywydau drwy wylidwriaeth ac ymyriadau cynharach.

Bydd gwasanaeth cefnogaeth labordy AWMGS ar gyfer profion Syndrom Lynch yng Nghymru yn cael ei lansio yn mis Medi.

Profion Syndrom Lynch ar gyfer yr holl Gleifion Canser y Coluddyn yng Nghymru

Ym mis Mehefin 2019, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymrwymo i brofi holl gleifion canser y coluddyn am Syndrom Lynch. Bydd Timau Amlddisgyblaethol y colon a'r rhefr yn gweithredu'r gwasanaeth dros y misoedd nesaf.

Eisiau bod yn Hyrwyddwr Genomeg?

Mae ceisiadau bellach ar agor i'r rheiny sy'n dymuno bod yn Hyrwyddwyr Genomeg. Mae hon yn rôl newydd a chyffrous sydd wedi'i hanelu at wella ymwybyddiaeth o genomeg drwy gydol y gweithlu. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Rhagfyr 2019.

Bydd Hyrwyddwyr Genomeg yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chefnogi'r broses o brif-ffrydio genomeg yn eu hardal leol. Mae GPW yn chwilio am grŵp amrywiol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws pob disgyblaeth, bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru, sydd ag angerdd i fod yn rhan o'r chwyldro genomeg. Rydym ni'n rhagweld y bydd hwn yn benodiad tymor penodol am 12 mis i ddechrau.

Ydych chi'n angerddol dros bŵer Genomeg i chwyldroi triniaeth wedi'i phersonoli ar gyfer cleifion yng Nghymru?

Ydych chi'n gallu rhannu a chyfathrebu eich gwybodaeth mewn ffordd glir a hygyrch?

Os felly, beth am fod yn Hyrwyddwr Genomeg? Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr mewn genomeg i fod yn Hyrwyddwr – y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw mynegi eich diddordeb trwy anfon datganiad personol (dim mwy na 500 gair) a llythyr ategol gan eich rheolwr llinell yn nodi pam rydych chi'n meddwl y byddwch chi'n Hyrwyddwr Genomeg da i Rebecca Hopes, Arweinydd Hyfforddiant ac Addysg Genomeg (Rebecca.Hopes@wales.nhs.uk). Yna bydd galwad ffôn anffurfiol yn cael ei drefnu.

Rhowch wybod i'r gymuned GPW am eich #ArDrywyddGenomeg neu unrhyw newyddion/cyfleoedd da eraill sydd gennych chi i'w rhannu. Cysylltwch â partneriaethgenomegcymru@wales.nhs.uk i gael rhagor o wybodaeth

**Eisiau Cael Eich
Cynnwys?**

Dyddiadau i'w Nodi



CAIFF GENOMEG CYHOEDDUS

2^{ail} December 11:00 – 13:00 *Coffee #1, The Friary, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF10 2PB*

7^{fed} December 11:00 – 13:00 *Coffee #1, Rhodfa Santes Catherine, Caerfyrddin SA31 1GA*

Mae tocynnau ar gael drwy Eventbrite



I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

www.walesdeanery.org/qist/qistmas-2019



GWEITHDY RAPID

Canolfan Gwyddorau Bywyd, Bae Caerdydd
Dyddiad: 13^{eg} Mawrth 2020, 10:30 - 15:00

Gweithdy technegol ar wasanaethau dilyniannu cyflym

Bydd manylion pellach yn dilyn maes o law

Cysylltwch â GPW

@GenomegCymru

partneriaethgenomegcymru@wales.nhs.uk

Diweddariadau am y Rhaglen

• *Ho ho ho!* Mae pwddinau Nadolig GPW ar eu ffordd

Ar ôl codi dros £250 y llynedd ar gyfer cronfa 'Make it Better' Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, rydym ni'n falch o gyhoeddi y bydd pwddinau Nadolig brand GPW ar werth eto yn fuan. Ac eleni byddwn ni hefyd yn gwerthu'r Pwddin Taffi Gludiog Perffaith – felly rhywbeth at ddant pawb! Cofiwch gadw llygad am y cynhyrchion hyn neu cysylltwch â Swyddfa'r Rhaglen yn uniongyrchol

• **Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd**

Mae dau aelod o'r Bwrdd Seinio wedi ymuno â Byrddau Llywodraethu a Rhaglenni GPW. Bydd aelodau SB ychwanegol yn cael eu recriwtio ddechrau 2020

• **NovaSeq**

Mae'r dilyniannwr newydd bellach wedi'i osod ac yn barod i'w ddefnyddio; bydd yr ymchwil gyntaf yn cael ei chynnal y mis hwn gyda gwasanaethau clinigol genom cyfan yn dechrau yn 2020

• **Ymchwil ac Arloesedd**

Bydd yr Athro Steve Conlan o Brifysgol Abertawe yn cadeirio'r grŵp newydd hwn; mae gwaith ar y gweill gyda gweithdy Cymru gyfan wedi'i gynllunio ar gyfer Gwanwyn 2020

• **Arddangosfa Genomeg**

Mae paratoadau ar waith ar gyfer digwyddiad Arddangos Genomeg yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ym mis Mai. Bydd yn gyfle i'r holl bartneriaid a'r grwpiau gweithredu dynnu sylw at eu meysydd gwaith Strategaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd. Bydd cyfle tebyg i ymgysylltu yng Ngogledd Cymru hefyd, I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Pharc Genetec Cymru

• **Comisiynu**

Mae'r grwp wedi'i sefydlu gyda Stuart Davies o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) fel cadeirydd

• **Ystadau**

Mae trafodaethau yn parhau i ddiogelu safle ar gyfer cyd-leoli partneriaid gyda disgwyl i waith cynllunio ddatblygu ddechrau 2020

• **Gwerthuso Rhaglen**

Gweithio gyda CEDAR i ddatblygu a gweithredu gwerthusiad o'r Strategaeth

• **Tim Swyddfa'r Rhaglen**

Llongyfarchiadau i Catrin ar enedigaeth ei mab Griff! Rydym ni'n gobeithio y bydd hi'n mwynhau ei chyfnod mamolaeth